

GALWAD I WEDDI MEC 2021

DYWEDAIS, "YR ARGLWYDD YW FY RHAN, AM HYNNY DISGWYLIAF WRTHO."

Galarnad 3:24

Mae gobaith wedi bod yn air pwerus dros y deuddeg mis diwethaf. Mae cymaint yn ein gwlad wedi gobeithio am lawer o wahanol bethau - iechyd, imiwnedd poblogaeth (herd immunity), PPE, brechlyn, y Nadolig, a nawr mae llawer yn gobeithio am wyliau'r haf hwn. Mae gobaith yn hanfodol i unrhyw berson, yn enwedig gan ein bod ni'n byw mewn byd toredig.

Mae bywyd yn gymysgedd o'r da a'r drwg, ac mae angen gobaith oherwydd nid yw pethau fel y dylent fod gan fod pechod a'r felltith wedi effeithio'n ddwfn ar bopeth. Gobeithiwn am y penwythnos neu wyliau oherwydd gall gwaith fod yn anoddy'n aml. Mae perthnasau yn aml o dan straen, ac felly rydym yn gobeithio ac yn edrych am adferiad neu berthnasau newydd a gwell. Mae'r greadigaeth wedi torri, ac rydyn ni'n wynebu pryderon iechyd, felly rydyn ni'n gobeithio am ddyddiau gwell a brechlynnau gwell. Mae hyn hyd yn oed yn wir am ein bywydau ein hunain gan nad yw cymaint o'n profiadau byth yn ein bodloni mewn gwirionedd. Mae gobaith yn hanfodol i unrhyw un sy'n dymuno byw bywyd ffrwythlon a hapus yn y byd hwn, ond mae angen i ni roi ein gobaith yn y lle iawn ... neu'r person iawn.

Fel Cristnogion rydyn ni'n wedi ein bendithio y tu hwnt i bob mesur oherwydd bod ein gobaith wedi'i seilio ar Dduw nad yw'r byd toredig hwn yn effeithio arno. Mae'r Ysbryd wedi agor ein

llygaid i weld, er bod y byd hwn yn fendigedig, na all unrhyw beth na neb ar y ddaear roi boddhad gwirioneddol, tragwyddol a pharhaol inni. Rydyn ni'n ysbrydol yn ogystal â bodau dynol, ac felly mae angen ateb tragwyddol ac ysbrydol arnom i'n problemau a fydd yn rhoi gobaith inni wynebu bywyd a'i heriau. Y Duw Sanctaidd - Tad, Mab ac Ysbryd - yw'r unig un sy'n gallu gwneud hyn, ac mae'n frain i ni roi ein gobaith ynddo. Dyma obaith na fydd byth yn ein cywilyddio (Salm 25).

Onid yw'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu dros y flwyddyn ddiwethaf hon yn profi hyn inni wrth i Dduw dynnu'n araf gynifer o'r pethau yr oeddem ar un adeg yn ei gyfrif yn bwysig? Ein hunig obaith yn y bywyd hwn, a'r un nesaf, yw ein Duw mawr a gogoneddus - y Tad a'n carodd yn nhragwyddoldeb ac a roddodd ei Fab i farw drosom, y Mab a ddarostyngodd ei hun i farwolaeth ar y groes ac sydd bellach yn teyrnasu yn fuddugoliaethus, a'r Ysbryd sydd gyda ni bob amser yn ein tywys, ein disgyblu, a'n caru.

**THROUGH THE DAILY
MESSAGES AND
PRAYER POINTS WE
INVITE YOU TO JOIN
WITH US TO LOOK AT
DIFFERENT ASPECTS
OF GOD'S CHARACTER.**

Dyma sylfaen ein galwad i weddi eleni. Mae cymaint o anghenion yng Nghymru o fewn ac y tu allan i'r Eglwys, ond yr hyn sydd ei angen arnom yn fwy na dim yw cael ein hatgoffa o'n Duw rhyfeddol. Trwy'r negeseuon dyddiol a'r pwyntiau gweddi rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni wrth edrych ar wahanol agweddau ar gymeriad Duw. Ein nod wrth wneud hyn fydd ein hannog a sylweddoli bod angen i ni ddibynnu'n llawn arno fel ein hunig obaith. Fel y mae Galarnad tri yn mynd ymlaen i ddweud, 'Da yw'r ARGLWYDD i'r rhai sy'n gobeithio ynddo, i'r rhai sy'n ei geisio. Y mae'n dda disgwyl yn dawel am iachawdwriaeth yr ARGLWYDD'(ad 25-26). Beth arall y gallm ei wneud?

PAM GALWAD I WEDDI?

Gwyddom fod ein bywyd gweddi yn rhan allweddol o'n disgyblaeth a'n cymdeithas â Duw ac nid oes gennym unrhyw awydd i dynnu Cristnogion o'r materion hynny y maent eisoes yn gweddiio amdanynt. Ein dymuniad yn syml yw annog gweddi am fendith Duw ar ein tir ac ar bopeth a wnawn fel Mudiad, i feithrin mwy o ymdeimlad o undod, ac i'n helpu i ganolbwyntio ein llygaid ar Dduw, sef ein gobaith.

Gweddiwn y bydd yr Alwad yn anogaeth ichi yn eich cerddediad gyda Duw a hyderwn y bydd yn galonidid ichi ganolbwyntio ar ein Duw mawr a gogoneddus.

DEFNYDDIO'R ALWAD I WEDDI

Bob dydd byddwn yn canolbwyntio ar wirionedd gwahanol am Dduw trwy ddarlleniadau o'r Beibl, defosiwn byr, rhai cwestiynau ar gyfer myfyrdod a phwyntiau gweddi. Bydd y cynnwys yn cael ei bostio ar-lein isod (ar y wefan a thrwy gyfryngau cymdeithasol) a'i anfon trwy e-byst (gallwch optio i mewn yma). Efallai yr hoffech chi ddefnyddio'r canllaw bob dydd am wythnos (ynghyd â channoedd o Gristnogion eraill) neu efallai yr hoffech chi ei ddefnyddio dros sawl wythnos. Mae croeso i chi ei ddefnyddio yn y ffordd y mae'r Arglwydd yn eich tywys, a rhannwch ef gydag eraill yn eich eglwys hefyd.

CYFARFODYDD GWEDDI AR LEIN

Nid ydym am dynnu oddi wrth gyfarfodydd gweddi Eglwys, ond mae profiad diweddar wedi dangos inni y gall dod â Christnogion ynghyd o wahanol rannau o'r wlad fod yn galonogol iawn. Rydym felly wedi trefnu dau gyfarfod gweddi ar-lein i ddod â phobl ynghyd i weddiio ar y dyddiadau canlynol:

2il Mawrth - Dydd Mawrth - 11.00 y bore

6ed Mawrth - Dydd Sadwrn - 4.00 y pnaun

Gallwch gofrestru ar gyfer y cyfarfod gweddi hyn drwy'r cyfeiriad https://mudiadefengylaiddcymru.formstack.com/forms/week_of_prayer_registration_copy

neu defnyddio'r QR

